# Pwyllgor Adnoddau Dynol

## 28 Mehefin 2023

Yn Bresennol: Cynghorydd SL Hancock, Mrs J James, Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Cynghorydd R Jordan, Cynghorydd PJ Morgan a’r Cynghorydd A Wilcox.

[Ymunodd y Cynghorydd GA Jones â’r cyfarfod o bell adeg ystyried eitem 7, Adroddiad ar Reoli Adnoddau Dynol.]

(Cyfarfod rhithiol: 10:00am - 11:26am)

**1. Ethol Cadeirydd**

Agorodd y Cynghorydd M James y cyfarfod ac enwebodd Mrs Julie James ar gyfer swydd y Cadeirydd. Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiad arall.

Ar gynnig y Cynghorydd M James, a eiliwyd gan y Cynghorydd Dr S Hancock, **PENDERFYNWYD** ethol Mrs J James yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

**2. Ethol Dirprwy Gadeirydd**

Enwebodd y Cadeirydd y Cynghorydd M James ar gyfer swydd yr Is-Gadeirydd. Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiad arall.

Ar gynnig Mrs J James, a eiliwyd gan y Cynghorydd R Jordan, **PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd M James yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

Talodd y Cadeirydd deyrnged i'r Cynghorydd M James fel cyn Gadeirydd y Pwyllgor Adnoddau Dynol, gan ei ganmol am ei waith, ac ychwanegodd ei bod yn edrych ymlaen at barhau i weithio ochr yn ochr ag ef yn y dyfodol.

Dechreuodd y Cadeirydd drwy estyn croeso cynnes i’r Rheolwr AD newydd, a gofynnodd am i ddiolchiadau'r Pwyllgor gael eu trosglwyddo i'r Tîm AD am eu gwaith caled ers i'r Rheolwr AD blaenorol adael yr Awdurdod.

**3. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd D Clements a Dr R Heath-Davies.

**4. Datgan Buddiannau**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

**5. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2022 ac ar 8 Chwefror 2023 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Ar gynnig y Cynghorydd PJ Morgan, a eiliwyd gan y Cynghorydd M James, **PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2022.

Ar gynnig y Cynghorydd M James, a eiliwyd gan y Cynghorydd A Wilcox, **PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2023.

**6. Log Gweithredu a Materion yn Codi**

a) <u>Cylchlythyr staff (Cofnod 4a) Pwyllgor Adnoddau Dynol 23 Tachwedd 2022</u>

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd yr Aelodau wedi derbyn y cylchlythyrau ers mis Rhagfyr. Cytunwyd y byddai'r copïau dan sylw o'r cylchlythyr yn cael eu hanfon at yr Aelodau, ac y byddai'r Aelodau yn cael eu cynnwys ar y rhestr bostio i dderbyn rhifynnau'r dyfodol.

b) <u>Swyddi Cefn Gwlad dan Hyfforddiant (Cofnod 7b) Pwyllgor Adnoddau Dynol 23 Tachwedd 2022</u>

Gofynnodd y Cadeirydd am ddiweddariad ynghylch cynnig swyddi dan hyfforddiant yn yr adran Cefn Gwlad.

c) <u>Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch (Cofnod 7f) Pwyllgor Adnoddau Dynol 23 Tachwedd 2022</u>

Gofynnodd y Cadeirydd am ddiweddariad ynghylch Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch i'r Aelodau. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd bod peth hyfforddiant wedi'i gynnal ac y byddai hyfforddiant pellach yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Hyfforddiant fel sy'n briodol.

d) <u>Y Cynllun Kickstart</u>

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Rheolwr AD lunio diweddariad ar y Cynllun Kickstart a'i ddosbarthu i'r Aelodau.

**7. Adroddiad ar Reoli Adnoddau Dynol**

Roedd yr Adroddiad ar Reoli Adnoddau Dynol yn cynnwys gwybodaeth am y pynciau canlynol: Hyfforddiant, Polisïau Iechyd a Diogelwch, Absenoldeb Salwch, Iechyd a Lles, y Menopos, Rhaglen Cymorth i'r Gweithwyr, Covid19, Diweddariad ar yr Adolygu Cyflogau a Graddfeydd, a Recriwtio a Chadw.

a) <u>Iechyd a Diogelwch</u>

Mynegodd y Cadeirydd bryder ynghylch lefel y wybodaeth a gyflwynir gan ei bod o'r farn y gallai materion fynd ar goll rhwng y Pwyllgor AD a'r Pwyllgor Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol. Cytunwyd y byddai

trafodaeth ar wahân yn cael ei chynnal rhwng y Cadeirydd, y Prif Weithredwr, y Rheolwr AD a'r Rheolwr Prosiect Iechyd a Diogelwch ar y mater hwn.

b) Absenoldeb Salwch

Dywedwyd bod absenoldeb salwch yn sylweddol is fis Mai. Serch hynny roedd ambell fan lle’r oedd problem absenoldeb. Gofynnodd un Aelod am eglurhad ar y mannau problemus hyn o ran absenoldeb salwch. Cadarnhaodd y Rheolwr AD nad oedd y problemau hyn yn gysylltiedig â'r gweithle.

Dywedodd y Rheolwr AD ei bod ar fin cyfarfod â Rheolwyr yr Awdurdod a’r gwasanaeth Iechyd Caer i ddeall beth arall y gellid ei wneud i gefnogi’r staff.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd canran yr absenoldebau wedi’i gynnwys yn yr adroddiad diweddaraf, a gofynnodd am i hyn gael ei gynnwys yn yr adroddiad nesaf. Cytunodd y Rheolwr AD i gynnwys y ganran hon yn y dyfodol ac eglurhad ar y modd y caiff y ffigurau eu cyfrif.

c) Iechyd a Lles

Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ynglŷn â darparwr Iechyd Galwedigaethol yr Awdurdod, Iechyd Caer, a drefnwyd i ymweld â Llanion ar y 6ed o Orffennaf.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd Iechyd Caer yn cynnig archwiliadau iechyd i’r staff. Cadarnhaodd y Rheolwr AD ei bod yn anelu at drefnu digwyddiad lles lle cynhelir profion pwysedd gwaed a cholesterol. Roedd yn cydnabod bod mwy o waith i'w wneud i gynorthwyo’r staff, ac ychwanegodd bod y tîm yn edrych ar ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer Iechyd a Lles. Eglurodd y Rheolwr AD, er ei bod yn edrych ar fwy o gyfleoedd i gefnogi’r staff, ei bod yn ymwybodol mai ei phrif flaenoriaeth oedd yr Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd.

Gofynnodd un Aelod a oedd modd gan y staff fanteisio ar fuddion gofal iechyd preifat. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr, fel rhan o’r ymgynghoriad ar fuddion staff, nad oedd y staff wedi codi’r math hwn o fuddion ar y pryd. Serch hynny, gellid ymchwilio i hyn eto drwy’r Fforwm Gweithwyr i ddeall a oedd blaenoriaethau’r staff wedi newid. Eglurodd y Prif Weithredwr bod cyfarfodydd y Fforwm Gweithwyr wedi'u gohirio yn y gorffennol oherwydd diffyg eitemau ar yr agenda a gyflwynir gan y staff. Gofynnodd i'r Aelodau gyflwyno'r pwnc Buddion Staff i sicrhau bod y cyfarfod nesaf yn mynd rhagddo ac i sefydlu mwy o weithio mewn partneriaeth. Cytunodd yr Aelodau i'r cam hwn. Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd bod yr Awdurdod mewn partneriaeth â Chymdeithas Ysbytai Cymru yn cynnig buddion gofal iechyd preifat.

d) <u>COVID19</u>

Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar Covid19. Dywedwyd y byddai Covid19, ar ôl cael cyngor gan Iechyd Caer, bellach yn cael ei gategoreiddio, ei reoli a'i fonitro yn yr un modd ag unrhyw haint anadlol arall.

Gofynnodd un Aelod a oedd asesiadau gweithle yn y cartref wedi'u llenwi gan y rhai sy'n gweithio gartref gan ei fod yn ymwybodol y gallai problemau godi oherwydd bod staff yn gweithio yn y safle anghywir. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod Polisi Gweithio Gartref a Gweithio Hybrid newydd wedi'i ddatblygu ac yn unol â'r polisi hwn, roedd disgwyl i staff lenwi asesiad o'r gweithle yn y cartref. Cadarnhaodd y rheolwr AD y byddai archwiliad o hunanasesiadau gweithle yn y cartref yn cael ei gynnal i sicrhau bod pob un o'r staff perthnasol wedi llenwi'r asesiadau hyn.

e) <u>Diweddariad ar yr Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd</u>

Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar yr Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd gyda dadansoddiad o bedwar cam y prosiect a'r amserlen newydd.

Gofynnodd y Cadeirydd beth oedd yr amserlen wreiddiol a pha mor bell yr oedd yr Awdurdod wedi gwyro oddi ar yr amserlen honno. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod disgrifiadau swydd a holiaduron i'w cyflwyno yn wreiddiol i'w gwerthuso erbyn mis Chwefror, fodd bynnag disgwylir i hyn ddigwydd yn awr erbyn mis Medi. Dywedwyd y byddai dyddiadau pendant yn cael eu cadarnhau yn ystod cyfarfod nesaf y Tîm Rheoli. Gofynnodd un Aelod pryd fyddai'r drwydded Cendex yn dechrau a pha mor hir y byddai'r Adolygiad yn ei gymryd. Cadarnhaodd y Rheolwr AD bod trwydded Cendex yn cychwyn fis Gorffennaf ac y byddai'r Adolygiad yn cael ei gwblhau o fewn 12 mis felly ni fyddai angen adnewyddu'r drwydded.

Gofynnodd un Aelod am eglurhad ynghylch costau'r prosiect. Cadarnhaodd y Rheolwr Adnoddau Dynol bod yr Awdurdod wedi dewis trwydded 'bwndel o 100 o swyddi' gyda West Midlands Employers (WME) a gostiodd £9,500 + TAW ac yn ogystal, wedi prynu trwydded gyda Cendex ar gost o £9,518 i gynorthwyo gyda Cham 3 o'r adolygiad. Dywedwyd y byddai'r drwydded gyda Cendex yn cadarnhau'r gwaith a wneir gan WME. Ychwanegodd y Rheolwr AD y byddai'r arbenigedd a roddir gan Cendex yn galluogi'r Awdurdod i fod yn hyderus yng nghanlyniad yr adolygiad gan ei bod yn debygol y byddai apeliadau gan staff ar ddiwedd yr Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd. Dywedodd y Cadeirydd gan y byddai'r Pwyllgor yn ymwneud â'r broses apelio y byddai angen rhywfaint o hyfforddiant arnynt.

Mynegodd y Cadeirydd ei phryder ynghylch yr effaith y byddai'r oedi wedi'i chael ar staff, a gofynnodd am sicrwydd bod gohebiaeth rheolaidd yn cael ei ddosbarthu ar y mater hwn. Cadarnhaodd y Rheolwr AD, er nad oedd e-bost wedi'i ddosbarthu i bob aelod o staff ers iddi gychwyn ar ei swydd yn yr

Awdurdod gan nad oedd digon o wybodaeth ar gael, bod y cyfathrebu yn cael ei hidlo i lawr drwy'r rheolwyr. Cadarnhaodd y Rheolwr AD ei bod wedi cyfarfod â chynrychiolwyr Unsain a'i bod wedi trefnu dyddiadau hyfforddi ar gyfer y panel mewnol. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod yr e-bost diweddaraf i bob aelod o staff wedi'i ddosbarthu tua 6 wythnos yn ôl oedd yn hysbysu'r staff y byddai mwy o wybodaeth yn cael ei ddosbarthu unwaith y byddai'r Rheolwr AD newydd yn ei swydd. Dywedwyd bod yr Awdurdod wedi derbyn cadarnhad yn ystod y dyddiau diwethaf am yr amserlen ddiweddaraf, ac yn sgîl hynny, awgrymodd y Cadeirydd y dylid dosbarthu e-bost at bob aelod o staff yn ddi-oed.

Cadarnhaodd y Rheolwr AD y byddai'n dosbarthu taflen at bob Aelod ynghylch Cendex er gwybodaeth bellach.

f) <u>Recriwtio a Chadw</u>
Dywedwyd bod yr Awdurdod yn hysbysebu 8 swydd ar hyn o bryd, ond bod recriwtio mewn rhai meysydd allweddol yn profi'n heriol.

Mynegodd un Aelod ei bryder bod gweithlu'r Awdurdod yn heneiddio a gofynnodd beth oedd yn cael ei wneud i annog mwy o bobl ifanc i ymuno â'r Awdurdod. Gofynnodd yr Aelod am gadarnhad ynghylch pa gamau sydd wedi'u cymryd ar brentisiaethau a lleoliadau gwaith.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod gan yr Awdurdod weithlu sy'n heneiddio gan fod nifer yn ystyried bod yr Awdurdod yn lle da i weithio ac felly eu bod wedi aros yn eu swyddi am amser maith. Dywedwyd nad oedd llawer o gamau ymlaen wedi'u cymryd oherwydd rhesymau capasiti er bod cyfleoedd wedi'u cymryd fesul achos. Roedd yn cydnabod y gellid gwneud mwy i annog unigolion ifanc i ymuno â'r Awdurdod megis trafod y mater gyda Choleg Sir Benfro a chynnig hyfforddiant datblygu.

Gofynnodd yr Aelod a oedd yr Awdurdod wedi ystyried defnyddio fideos recriwtio a sicrhau bod yr hysbysebion swyddi yn apelio. Cadarnhaodd y Rheolwr AD y dylai pob hysbyseb swydd fod yn greadigol, gan amlygu pwyntiau gwerthu unigryw a chael eu hysbysebu ar y llwyfannau cywir. Ychwanegodd bod cyfleoedd eraill yn cael eu harchwilio, megis ymuno â thimau eraill o fewn yr Awdurdod sy'n cynnal gwaith allgymorth. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai cydweithio â'r Fforwm Ieuenctid fod yn ffordd arall o gysylltu â'r gymuned.

Er bod recriwtio unigolion newydd yn hanfodol, roedd cydnabyddiaeth bod staff sefydlog a hapus hefyd yn hollbwysig. Ar y nodyn hwnnw, gofynnwyd am gadarnhad a oedd cyfweliadau ymadael yn cael eu cynnal i ddeall y rhesymau pam fod staff yn gadael. Cadarnhaodd y Cadeirydd bod cyfweliadau ymadael yn cael eu cynnal, a gofynnodd a oedd themâu yn cael eu hadrodd i'r Tîm Arwain. Eglurodd y Prif Weithredwr bod niferoedd y staff sy'n gadael y sefydliad yn isel ond y gellid ystyried datblygu themâu

mwy cyffredinol. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai adrodd ar y themâu hyn yn yr adroddiad metrigau yn y tymor hwy fod yn fuddiol i gael gwersi wedi'u hamlygu ac achosion problemus wedi’u clustnodi.

Gofynnodd un Aelod a fyddai'r Awdurdod yn hyrwyddo recriwtio yn Sioe'r Sir ac yn y Diwrnodau Gyrfaoedd Ysgolion. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod yr Awdurdod ar hyn o bryd yn ymgysylltu â Gyrfa Cymru a rhai ysgolion, fodd bynnag bod Covid19 wedi effeithio ar hyn. Dywedwyd y gallai cynnig Profiad Gwaith fod yn heriol gan fod hyn yn aml ar gyfer plant dan 16 oed, oedd yn cyfyngu ar y cyfleoedd fyddai'n briodol. Ychwanegodd y Prif Weithredwr, o ran recriwtio yn Sioe'r Sir, na fyddai recriwtio yn cael ei hyrwyddo yn uniongyrchol ond bod presenoldeb yr Awdurdod yn gyffredinol yn y sioe yn cael effaith ymledol gadarnhaol. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai taflen Recriwtio fod yn fuddiol i fanteisio i’r eithaf ar y cyfle hwn.

g) Metrigau Adnoddau Dynol

Cyflwynwyd ystod o fetrigau, a chytunwyd y gellid mireinio'r data i ddiwallu anghenion y swyddogion a’r Aelodau yn well. Cadarnhaodd y Rheolwr AD y gellid dileu canlyniadau'r Arolwg o Farn y Gweithwyr gan fod hwn yn wybodaeth sydd wedi dyddio, ac y gellid adrodd ar bynciau eraill megis nifer y staff sy’n ymuno ac yn gadael. Cytunodd y Cadeirydd â'r cam hwn a gofynnodd pryd y byddai'r arolwg nesaf yn cael ei gynnal. Roedd yr Aelodau yn cydnabod na fyddai cynnal yr arolwg yn ystod yr Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd yn amser priodol, ond mynegwyd pryder ynghylch gadael hyn yn rhy hir cyn cynnal arolwg arall. Atebodd y Prif Weithredwr y byddai arolwg yn cael ei gynnal unwaith y byddai'r Adolygiad wedi'i gwblhau.

**Nodwyd.**

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o’r Pwyllgor Adnoddau Dynol a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2023 heb eu diwygio.